# Galwad

*Pedwerydd Sul y Pasg*

## Actau 9:36-43

- Wrth adrodd y stori, mae awdur Llyfr yr Actau yn cadarnhau pwysigrwydd gweithredoedd da a gweithredoedd elusennol, sy'n agwedd hanfodol ar ddisgyblaeth a galwad Gristnogol.
- Ym myd patriarchaidd Actau, mae Dorcas/Tabitha/Gafrewig yn cael ei dathlu fel disgybl benywaidd ymroddedig. Mae hi'n cael ei galw allan o gyfyngiadau'r hyn y mae rolau traddodiadol yn dweud y dylai fod a'i wneud.
- Mae hi wedi ymrwymo i anghenion eraill yn ei galwad, gan ymateb i alwad Duw trwy gydnabod lle gall hi ymuno â chenhadaeth Duw.
- Mae Duw wedi penderfynu tra bod eraill yn meddwl bod ei gweinidogaeth ar ben, nad yw wedi gorffen gyda hi at ddibenion Duw ac felly mae hi'n cael ei hadfer i fywyd. Ydyn ni’n meddwl yn gynamserol weithiau fod Duw wedi gorffen gyda ni neu gyda phobl eraill?
- Y pwyslais yma mewn perthynas â'r Pasg yw bywyd newydd, dechreuadau newydd a thrawsnewidiad. Pan fydd Duw yn galw, mae pobl yn cael eu trawsnewid. Yng Nghrist, nid ydym wedi marw, ond wedi ein galw i fywyd newydd, yn un o ddisgyblaeth a galwad.

## Salm 23

- Yn y Salm hon, ceir cydnabyddiaeth mai Duw yw ffynhonnell bywyd. Mae'r gair Hebraeg *nefesh* yn cael ei gyfieithu fel arfer i olygu enaid, ond mae iddo ystyr dyfnach, yn debycach i 'anadl bywyd'. Heb Dduw, nid oes gennym fywyd a heb Dduw dim ond ymgais i ennill cymeradwyaeth Duw yw ein galwad, nid ymateb i gariad anfeidrol Duw.
- Mae'r Salm yn tynnu ar ddelweddaeth o Dduw fel Bugail, sy'n gofalu am y defaid ac yn eu caru, cymaint fel bod Duw yn ceisio ffyrdd i'n maethu a'n hadfywio. I rai, bu'r pandemig yn ‘ddyffryn tywyll du' ac yn fan lle bu galwad yn frwydr: pan fydd popeth yn wahanol, beth yw fy ngalwad? Mae’r Salm yn pwysleisio gofal Duw am y defaid, amdanom ni, a’r angen am orffwys ac adferiad. Nid yw galwad yn ymwneud â phrysurdeb diddiwedd, ond gwasanaethu'r Un sydd nid yn unig yn ein galw, ond yn deddfu gorffwys Sabothol.

# Galwad

*Pedwerydd Sul y Pasg*

## Datguddiad 7:9-17

- Mae'r darn hwn yn glir bod pobl Dduw yn cynnwys pobl o bob cefndir a hunaniaeth. Nid yw galwad wedi ei gyfyngu i'r ychydig, mae'n alwad ar bob disgybl o bob cefndir.
- Wrth gydnabod yr alwad gyffredinol hon, cawn ein herio i sicrhau bod ein galwad, wrth wasanaethu'r Eglwys er mwyn y byd, yn gynhwysol ac yn ceisio cyfiawnder. Ni ddylai ein hymateb i gariad Duw wneud iddo edrych fel petai cariad Duw yn gyfyng – dylai adlewyrchu'r Un sy'n creu amrywiaeth mewn undod. Dylai hyn beri inni oedi ac edrych ar ba mor gynrychiadol yw ein heglwysi mewn perthynas â'r byd ehangach – nid yn unig y rhai sy'n eistedd yn y seddau ar y Sul, ond y rhai sy'n arwain, yn gwasanaethu ac yn pregethu.
- Gan roi'r darn hwn yn ei gyd-destun, mae'n pwysleisio'r risg o addoli yng nghyd-destun Rhufain. Nid peth hwyliog i'w wneud ar y Sul oedd addoli, ond dewis i wadu duwiau Rhufain ac ymrwymo i Un Duw Israel. Wrth ddilyn Crist ac ymateb i'n galwad, mae gennym ni ddewisiadau i'w gwneud: a ydyn ni'n dilyn duwiau'r byd neu'n dilyn yr Un yng Nghrist.

## Ioan 10:22-30

- Mae'r awdur yn pwysleisio amddiffyniad Iesu o'i ddilynwyr. Os byddwn yn dewis dilyn, er y gallai fod heriau mawr, byddwn yn derbyn gofal - ni fyddwn yn cael ein cipio i ffwrdd. Yng nghyd-destun galwad, gall hyn fod yn hynod gysurus. Mae llawer o bobl, wrth ymateb i alwad Duw, wedi canfod eu hunain allan o'u cysurfan. Mae'r Gwasanaeth Cyfamod Methodistaidd blynyddol yn cydnabod hyn. Mae delweddaeth y Bugail o'r llithiadur heddiw yn darparu'r cydbwysedd hwnnw rhwng Duw sy'n ein harwain yn ein galwad a'r amddiffyniad y mae Duw yn ei ddarparu pan fyddwn ni mewn mannau sy'n anodd, ond yno fel un o anwyliaid Duw.
- Mae Iesu'n herio'r rhai sydd eto i gredu ynddo, trwy bwysleisio bod y gweithredoedd y mae ef yn eu gwneud yn enw Duw yn tystio iddo. Mae hyn yn ymwneud â'r ddealltwriaeth bod ffrwyth ein gwaith yn dangos a ydym o Dduw neu o'n chwantau ein hunain. Wrth ddirnad galwad, cydnabod y ffrwythau hyn sy'n ein helpu i ddirnad ein galwad fel cymuned.